

# Annual Report 2007/08

## Adroddiad Blynyddol

Creu Cymru

The development agency for theatres and arts centres in Wales

Yr asiantaeth ddatblygu ar gyfer theatrau a chanolfannau celfyddydau yng Nghymru

# director’s foreword
# rhagair y cyfarwyddwr



Welcome to Creu Cymru’s 2007/08 Annual Report – a new style of report which we hope reflects the diverse and exciting programme offered to our membership over the year.

Highlights from an extensive touring programme include the tours of *Bang Boy Bang!*, *Blue Beard* and *Macbeth – Kill Bill Shakespeare*; and the co-productions with Theatr Mwldan: Cimarron and Catrin Finch; and *The Eagle Dances*.

Creu Cymru’s Go and See scheme is unique in the way it offers programmers and marketers the chance to visit and discuss a range of UK and international productions, resulting in a major contribution to programme planning and professional development.

Creu Cymru’s success in establishing creative collaborations between groups of members was recognised through:

- achieving a second grant from the Esmée Fairbairn Foundation – £165,000 over 3 years to support the 21st-Century Promoter project.
- an additional grant from the Paul Hamlyn Foundation of £80,000 over 2 years to support the Inventive Promoter scheme.

The 2 foundations have now supported Creu Cymru with grants totalling close to £400,000 over the past 3 years – a substantial contribution; we’d like to thank them for their generous support and commitment.

Another key development has been to canvass those among the membership that presently make little use of our services – research that will allow us to engage with all members who wish to benefit more from their membership of Creu Cymru. It also provides us with a clearer picture of the whole sector giving us the opportunity to represent its views in strategic and other discussions.

Creu Cymru has also been working with the Wales Association for the Performing Arts (WAPA) on developing the relationship between our membership and the companies and other producers in Wales.

During the year the situation regarding public funding began to bite. Creu Cymru has responded through seeking to broaden its earned income base and identify key priorities for additional funding:

- Go and See scheme
- managed touring projects and our International Routes touring programme
- development of a North West Wales consortium

Starting the new financial year with all but one of the theatres and arts centres across Wales as members provides Creu Cymru with the strength to represent the views of the sector, a sector which has a major role to play in providing access to the performing arts – locally, regionally and nationally.

Croeso i Adroddiad Blynyddol Creu Cymru 2007/08 – adroddiad newydd a fydd, gobeithiwn, yn adlewyrchu’r rhaglen gyffrous ac amrywiol sydd ar gynnig i’n haelodaeth drwy’r flwyddyn.

Mae’r uchafbwyntiau rhaglen deithio helaeth yn cynnwys teithiau *Bang Boy Bang!*, *Blue Beard* a *Macbeth – Kill Bill Shakespeare*; a’r cydgynhyrchiad â Theatr Mwldan: Cimarron a Catrin Finch a *The Eagle Dances*.

Mae Cynllun Ewch i Weld Creu Cymru’n unigryw yn y ffordd y bydd yn cynnig i raglenwyr a marchnatwyr y cyfle i ymweld ag amrywiaeth o gynyrchiadau o’r DU a rhyngwladol ac i’w trafod. Y canlyniad yw cyfraniad o bwys i gynllunio rhaglenni a datblygu proffesiynol.

Cydnabuwyd llwyddiant Creu Cymru wrth sefydlu cyweithiau creadigol rhwng grwpiau o aelodau wrth:

- dderbyn ail grant gan Sefydliad Esmée Fairbairn – £165,000 dros 3 blynedd i gynnal prosiect Hyrwyddwr yr 21ain Ganrif.
- grant ychwanegol gan Sefydliad Paul Hamlyn o £80,000 dros 2 flynedd i gynna y cynllun Hyrwyddwr Creadigol.

Mae’r ddau sefydliad bellach wedi cynorthwyo Creu Cymru trwy grantiau hyd at gyfanswm sy’n agos i £400,000 dros y 3 blynedd diwethaf – cyfraniad sylweddol a hoffem ddiolch iddynt am eu cefnogaeth hael a’u hymroddiad.

Cafwyd datblygiad allweddol arall wrth ganfasio’r aelodau hynny nad ydynt ar hyn o bryd yn gwneud fawr o ddefnydd o’r gwasanaethau – bydd yr ymchwil yma’n gadael i ni ymgysylltu â’r holl aelodau sy’n dymuno elwa’n fwy o’u haelodaeth o Creu Cymru. Mae hefyd yn darparu gwell darlun i ni o’r holl sector gan roi i ni’r cyfle i gynrychioli’u barn mewn trafodaethau strategol ac eraill.

Bu Creu Cymru hefyd yn gweithio â Chymdeithas Celfyddydau Perfformio Cymru (WAPA) ar ddatblygu’r berthynas rhwng ein haelodaeth a’r cwmnïau a chynhyrchwyr eraill yng Nghymru.

Yn ystod y flwydd, mae’r esgid fach wedi dechrau gwasgu o ran ariannu cyhoeddus.

Mae Creu Cymru wedi ymateb trwy geisio ehangu sylfaen yr incwm a enillir ganddo gan adnabod y prif flaenoriaethau ar gyfer cyllid ychwanegol.

- cynllun Ewch i Weld
- prosiectau teithiol rheoledig a’n rhaglen deithiol, Llwybrau Rhyngwladol
- datblygu consortiwm i ogledd-orllewin Cymru

Mae dechrau’r flwyddyn ariannol newydd gyda holl theatrau a chanolfannau celfyddydau namyn un drwy Gymru benbaladr yn aelodau, yn rhoi’r nerth i Creu Cymru i gynrychioli barn y sector – sector sydd â rôl bwysig i’w chwarae wrth ddarparu mynediad i’r celfyddydau perfformio – yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol.



# members
# aelodau

Aberystwyth Arts Centre*
Canolfan y Celfyddydau Aberystwyth*
Barry Memorial Hall
Neuadd Goffa, Y Barri
Beaufort Theatre, Ebbw Vale*
Theatr Beaufort, Glyn Ebwy*
Blackwood Miners’ Institute*
Sefydliad y Glowyr, Y Coed Duon*
Borough Theatre, Abergavenny*
Theatr y Bwrdeistref, Y Fenni*
Chapter Arts Centre, Cardiff
Canolfan y Celfyddydau Chapter, Caerdydd
Coliseum, Aberdare*
Coliseum, Aberdâr*
Congress Theatre, Cwmbrân
Congress Theatre, Cwmbrân
Centre for Performance Research
Centre for Performance Research
De Valance Pavilion, Tenby
Pafiliwn De Valance, Dinbych-y-pysgod
Diversions Dance House, Cardiff
Tŷ Dawns Diversions, Caerdydd
Galeri, Caernarfon*
Galeri, Caernarfon*
Grand Theatre, Swansea*
Theatr y Grand, Abertawe*
Muni Arts Centre, Pontypridd*
Canolfan y Celfyddydau Muni, Pontypridd *
Neuadd Dwyfor, Pwllheli
Neuadd Dwyfor, Pwllheli

New Theatre, Cardiff
New Theatre, Caerdydd
Venue Cymru, Llandudno*
Venue Cymru, Llandudno*
Park and Dare Theatre, Treorchy*
Parc a Dare, Treorci*
Pavilion Theatre, Rhyl*
Theatr Y Pafiliwn, Y Rhyl*
Pontardawe Arts Centre
Canolfan y Celfyddydau Pontardawe
Princess Royal Theatre, Port Talbot
Theatr y Dywysoges Frenhinol, Port Talbot
The Riverfront, Newport*
Glan-yr-afon, Casnewydd*
Royal International Pavilion, Llangollen
Pafiliwn Cydwladol Brenhinol, Llangollen
Sherman Cymru, Cardiff
Sherman Cymru, Caerdydd
SPAN Arts, Narberth
Celfyddydau SPAN, Arberth
St Donats Arts Centre, Llantwit Major
Canolfan y Celfyddydau Sain Dunwyd
Taliesin Arts Centre, Swansea*
Canolfan y Celfyddydau Taliesin, Abertawe*
The Grand Pavilion, Porthcawl
Pafiliwn y Grand, Porthcawl
The Welfare, Ystradgynlais
Y Neuadd Les Ystradgynlais
Theatr Harlech
Theatr Harlech

Theatr Brycheiniog, Brecon*
Theatr Brycheiniog, Aberhonddu*
Theatr Colwyn, Colwyn Bay
Theatr Colwyn, Bae Colwyn
Theatr Elli, Llanelli
Theatr Elli, Llanelli
Theatr Elwy, Denbigh
Theatr Elwy, Llanelwy
Theatr Felinfach, Dyffryn Aeron
Theatr Felinfach, Dyffryn Aeron
Theatr Gwaun, Fishguard
Theatr Gwaun, Abergwaun
Theatr Gwynedd, Bangor*
Theatr Gwynedd, Bangor*
Theatr Hafren, Newtown*
Theatr Hafren, Y Drenewydd*
Theatr Mwldan, Cardigan*
Theatr Mwldan, Aberteifi*
Theatr Stiwt, Rhosllanerchrugog
Theatr Stiwt, Rhosllanerchrugog
Torch Theatre, Milford Haven*
Theatr y Torch, Aberdaugleddau*
Ucheldre Centre, Holyhead
Canolfan Ucheldre, Caergybi
Wales Millennium Centre, Cardiff
Canolfan Mileniwm Cymru, Caerdydd
Wyeside Arts Centre, Builth Wells
Canolfan y Celfyddydau Wyeside, Llanfair ym Muallt

* designated as a Regional Performing Arts Centre (RPAC) by the Welsh Assembly Government.
* wedi’i dynodi’n Ganolfan Celfyddydau Perfformio Ranbarthol (RPAC) gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

# contents
# cynnwys


director’s foreword / rhagair y cyfarwyddwr 2
membership / aelodaeth 4
touring / teithio 5
artform consortia / consortia’r celfyddydau 8
go & see / ewch i weld 9
inventive promoter & 21st-century promoter schemes / cynllun hyrwyddwr creadigol a hyrwyddwr yr 21ain ganrif 10
valleys roots / advocacy / valleys roots / eiriolaeths 12
finance / cyllid 13
board/ partners / bwrdd/partneriaid 14
staff / staff 15

# membership
# aelodaeth

Open to all professionally-managed theatres and arts centres in Wales presenting professional work,

**total membership was 44 during the year.**

## Members' conference

The members' conference was held on 26 September at the Elan Valley Hotel near Rhayader. Keynote speakers were: Dai Smith, Chair, Arts Council of Wales; Patrick Gilchrist, Executive Director, Theatre by the Lake, Keswick; and Ron McAllister, Director, South Hill Park Arts Centre, Bracknell.

The AGM confirmed Creu Cymru's touring priorities for 2007/08 as text-based drama, international work, dance and world/roots music.

## Contact

Creu Cymru staff visited 38 members over the year as part of its commitment to visit each member at least once every 18 months.

## Research

The Arts Council of Wales (ACW) supported Creu Cymru to undertake a research project into 15 members with particular issues involving programming, finance, staffing and other resources. Project completion date: July 2008.

## Resources

18 of Creu Cymru's members, designated as Regional Performing Arts Centres (RPACs), receive enhanced funding through the Welsh Assembly Government's Arts Outside Cardiff scheme. Creu Cymru works with these RPACs to enable this extra resource to play a key role in the development of the performing arts in Wales and in developing projects for the other theatres and arts centres in its membership.

(See members list on page 3 for details of RPACs.)

Yn agored i bob theatr a chanolfan gelfyddydau yng Nghymru a reolir yn broffesiynol ac sy'n cyflwyno gwaith proffesiynol,

**cyfanswm yr aelodaeth oedd 44 yn ystod y flwyddyn.**

## Cynhadledd Aelodau

Cynhaliwyd y gynhadledd aelodau 26 Medi yng Ngwesty Cwm Elan ger Rhaeadr Gwy. Y prif siaradwyr oedd Dai Smith, Cadeirydd Cyngor Celfyddydau Cymru; Patrick Gilchrist, Cyfarwyddwr Gweithredol, Theatre by the Lake, Keswick a Ron McAllister, Cyfarwyddwr, South Hill Park Arts Centre, Bracknell.

Cadarnhawyd mai blaenoriaethau teithio Creu Cymru gan y CCB i 2007/08 yw drama seiliedig ar destun, teithio rhyngwladol, dawns a cherddoriaeth y byd/gwreiddiau.

## Cyswllt

Bu staff Creu Cymru'n ymweld â 38 o aelodau dros y flwyddyn fel rhan o'i ymrwymiad i ymweld â phob aelod unwaith bob 18 mis fan leiaf.

## Ymchwil

Cefnogwyd Creu Cymru gan Gyngor Celfyddydau Cymru i ymgymryd â phrosiect i wneud ymchwil ar 15 aelod newydd gan edrych ar faterion penodol yn ymwneud â rhaglennu, cyllid, staffio ac adnoddau eraill. Dyddiad cwblhau'r prosiect yw mis Gorffennaf 2008.

## Adnoddau

Derbyniodd 18 o aelodau Creu Cymru, sydd wedi'u dynodi'n Ganolfannau'r Celfyddydau Perfformio Rhanbarthol (RPACs) gyllid ychwanegol trwy gynllun y Celfyddydau y Tu Allan i Gaerdydd. Mae Creu Cymru'n cydweithio â'r Canolfannau hyn i alluogi'r adnodd ychwanegol hwn i chwarae rhan allweddol wrth ddatblygu'r celfyddydau perfformio yng Nghymru ac wrth ddatblygu prosiect i'r theatrau a chanolfannau celfyddydau eraill yn ei aelodaeth.

(Gweler rhestr aelodaeth ar dudalen 3 am manylion yr RPACs)



Cas Public: *Blue Beard*



# touring
# teithio

MAE TEITHIAU sydd wedi'u trefnu a'u harchebu trwy Creu Cymru wedi hen ennill eu plwyf fel rhan o raglennu gyda thros ddwy ran o dair o'r aelodaeth.

TOURS NEGOTIATED and booked through Creu Cymru have become firmly established as a part of programming in over two-thirds of the membership.



**96 performances in 14 tours to 28 member theatres and arts centres in Wales**

**96 o berfformiadau mewn 14 o deithiau i 28 o aelod-theatrau a chanolfannau celfyddydau yng Nghymru**

Diversions

# touring
# teithio






## tours directly managed and financially supported by Creu Cymru:

### Bang Boy Bang!

Youtheatre, Canada (April 2007)

12 performances in 5 member theatres and arts centres, plus Birmingham Rep and Unity Theatre, Liverpool.

*Bang Boy Bang!* was a multi-media, one-man show centring on a 16-year-old boy reliving the nightmare of his alcohol-fuelled rape of a girl friend. The play tackles head-on issues of responsibility and alcohol-abuse among young people.

'An explosive and provocative exploration of the adolescent psyche.'

### Blue Beard

Cas Public, Canada (spring 2007)

6 performances in 4 member theatres and arts centres, plus the macrobert arts centre, Scotland.

A colourful dance production for young audiences and their families, retelling the gruesome legend in movement and text.

'Cas Public have the exceptional ability to make dance fun, fresh and accessible for everyone.'

### Macbeth – Kill Bill Shakespeare

South Hill Park Arts Centre, Bracknell (October 2007)

4 performances in member theatres and arts centres.

Shakespeare meets Tarantino in a block-busting adaptation of the Scottish play.

*Kill Bill Shakespeare* played to packed houses. On the last date of the Welsh tour, over 300 people, many of them teenagers studying Shakespeare's play, sat completely mesmerised.

'A high quality show which attracted and appealed to a wide audience. It was vibrant, contemporary and accessible. Very, very good.' BOROUGH THEATRE

### Henry V

Theater Gruene Sosse, Germany (autumn 2007)

10 performances.

Shakespeare's history retold for 7-year-olds (and older!) – pared down to spades and sandcastles.

'…concentrated interplay of actors, clear penetrating images and a well balanced mixture of seriousness and levity.'

Youtheatre: *Bang Boy Bang!*





South Hill Park Arts Centre: *Macbeth – Kill Bill Shakespeare*

## teithiau a reolwyd ac a gefnogwyd yn ariannol yn uniongyrchol gan Creu Cymru:

### Bang Boy Bang!

Youtheatre, Canada (Ebrill 2007)

12 perfformiad mewn 5 aelod-theatr a chanolfan gelfyddydau ynghyd â Birmingham Rep a'r Unity Theatre, Lerpwl.

Sioe undyn amlgyfrwng oedd *Bang Boy Bang!* a oedd yn canolbwyntio ar fachgen 16 oed yn ail-fyw'r hunllef o dreisio ei gariad dan ddylanwad alcohol. Mae'r ddrama'n mynd benben â materion yn ymwneud â chyfrifoldeb a cham-drin alcohol ymhlith pobl ifainc.

'Archwiliad ffrwydrol a phryfoclyd i feddylfryd y glasoed.'

### Blue Beard

Cas Public, Canada (gwanwyn 2007)

6 pherfformiad mewn 4 aelod-theatr a chanolfan gelfyddydau, ynghyd â chanolfan gelfyddydau macrobert, Yr Alban.

Cynhyrchiad dawns lliwgar i gynulleidfaoedd ifainc a'u teuluoedd, sy'n ailadrodd chwedl erchyll ar ffurf symud a thestun.

'Mae gan Cas Public allu rhyfeddol i wneud dawns yn hwyl, yn ffres ac yn hygyrch i bawb.'

### Macbeth – Kill Bill Shakespeare

South Hill Park Arts Centre, Bracknell (Hydref 2007)

4 perfformiad mewn aelod-theatrau a chanolfannau celfyddydau.

Shakespeare yn cwrdd â Tarantino mewn chwip o addasiad o'r ddrama Albanaidd.

Perfformiwyd *Kill Bill Shakespeare* o flaen cynulleidfaoedd a oedd dan eu sang. Yn ystod perfformiad olaf y daith yng Nghymru, eisteddodd 300 o bobl, llawer ohonynt yn eu harddegau a oedd yn astudio drama Shakespeare, fel pe baent wedi'u rheibio.

'Sioe uchel ei safon a ddenodd ac a oedd yn apelio at gynulleidfa eang. Roedd yn fywiog, yn gyfoes ac yn hygyrch. Yn dda iawn, iawn.' THEATR Y BWRDEISTREF

### Henry V

Theater Gruene Sosse, Yr Almaen (hydref 2007)

10 perfformiad.

Drama hanesyddol Shakespeare'n cael ei hailadrodd i blant-7-oed (a rhai hŷn!) – wedi'i blicio'n ôl i rawiau a chestyll tywod.

'…rhyngactio cryno, delweddau clir, treiddiol a chymysgedd cytbwys o'r difrif a'r ysgafn.'



## co-productions

### Cimarron and Catrin Finch

Creu Cymru, Theatr Mwldan, Galeri, Theatr Brycheiniog and Taliesin Arts Centre (November 2007)

8 performances in member theatres and arts centres.

A unique collaboration between the Columbian harp-led band and the Welsh harp virtuoso. The artists involved were so inspired by the collaboration that a further tour is planned for March 2009.

'This was a stunning fusion of two very different musical traditions in which traditional Welsh airs were given a decidedly exotic twist and Colombian dance music was performed with a degree of energy guaranteed to quicken the pulse.' EVENING POST

### The Eagle Dances

Creu Cymru, Theatr Mwldan and Gweithdy'r Gair

9 performances at 8 Creu Cymru members.

Directed by Guy Masterson, with authentic music, dance and traditional dress, *The Eagle Dances* celebrated Native American culture while questioning our ideas of civilisation.

## future planning

During the year the following projects and co-productions were planned and booked for 2008/9:

### The Man Who Planted Trees

Puppet State Theatre Company

A heart-warming adaption of Jean Giono's environmental tale, offering a unique blend of comedy, puppetry and inspiring storytelling. This production will be brought to Wales after being seen by staff from Creu Cymru member organisations at the Edinburgh Fringe Festival in August 2007.

### Yellow Moon

TAG

An award-winning piece by leading Scots playwright David Greig that follows the fortunes of two teenagers on the run. Also spotted on a Creu Cymru research trip at the Edinburgh Fringe 2007, *Yellow Moon* explores what it means to live in a celebrity-obsessed world and what it is that defines who you are when you're 17 years old.

### Stella Rambisai Chiweshe and the Heart of the Earthquake Band

Creu Cymru and Theatr Mwldan

'The Mbira Queen of Zimbabwe'

The acclaimed virtuoso of the mbira, a sacred instrument central to Zimbabwean Shona culture, Stella Chiweshe will tour together with her band in October 2008 to 8 members in Wales. This tour is part of Creu Cymru's International Routes programme and is supported by a grant from the Arts Council of Wales.

Puppet State Theatre: *The Man Who Planted Trees*





## cydgynyrchiadau

### Cimarron and Catrin Finch

Creu Cymru, Theatr Mwldan, Galeri, Theatr Brycheiniog a Chanolfan y Celfyddydau Taliesin (Tachwedd 2007)

8 o berfformiadau mewn aelod-theatrau a chanolfannau celfyddydau.

Cywaith unigryw rhwng y band dan arweiniad y delyn Columbaidd â'r bentelynores o Gymru. Ysbrydolwyd yr artistiaid a gymerodd ran i'r fath raddau nes bod taith bellach ar y gweill ar gyfer mis Mawrth 2009.

'Dyma ddau draddodiad cerddorol tra gwahanol yn ymdoddi mewn ffordd syfrdanol lle'r rhoddwyd tro go egsotig i alawon traddodiadol Cymreig a chafodd cerddoriaeth ddawns o Golumbia ei pherfformio gyda digon o ynni i roi hwb i byls pawb.' EVENING POST

### The Eagle Dances

Creu Cymru, Theatr Mwldan a Gweithdy'r Gair

9 perfformiad mewn 8 o'r sefydliadau sy'n aelodau o Creu Cymru.

Cyfarwyddwyd gan Guy Masterson, gyda cherddoriaeth a dawns ddilys a gwisg draddodiadol. Bu *The Eagle Dances* yn dathlu diwylliant Brodorion America tra'n cwestiynu ein syniadau am wareiddiad.

## cynllunio ir dyfodol

Yn ystod y flwyddyn cynlluniwyd a rhagarchebwyd y prosiectau a'r cydgynyrchiadau canlynol ar gyfer 2008/09:

### The Man Who Planted Trees

Puppet State Theatre Company

Addasiad cynnes o stori amgylcheddol Gino, sy'n cynnig blend unigryw o gomedi, pwpedaeth a doniau'r cyfarwydd ysbrydoledig. Daw'r cynhyrchiad hwn i Gymru ar ôl cael ei weld gan staff sefydliadau sy'n aelodau o Creu Cymru yng Ngŵyl Ymylon Caeredin ym mis Awst 2007.

### Yellow Moon

TAG

Darn arobryn gan un o brif ddramodwyr yr Alban, David Greig, sy'n dilyn hynt a helynt dau o bobl ifanc yn eu harddegau sydd ar herw. Hon hefyd, wedi'i gweld ar daith ymchwil Creu Cymru i Sioe Ymylon Caeredin yn 2007. Mae *Yellow Moon* yn archwilio beth mae'n ei feddwl i fyw mewn byd sydd ag obsesiwn ag enwogion a beth sy'n diffinio pwy ydych chi pan fyddwch chi'n 17 oed.

### Stella Rambisai Chiweshe and The Heart of the Earthquake Band

Creu Cymru a Theatr Mwldan

'Brenhines y Mbira o Zimbabwe'

Bydd meistres gydnabyddedig y mbira - offeryn sanctaidd sy'n canolog i ddiwylliant Shona Zimbabwe, yn teithio gyda'i band ym mis Hydref 2008 i 8 o aelodau Creu Cymru. Mae'r daith hon yn rhan o Raglen Llwybrau Rhyngwladol Creu Cymru ac fe'i cefnogir gan grant gan Gyngor Celfyddydau Cymru.

TAG: *Yellow Moon*

# artform consortia
# consortia'r celfyddydau


Theater Gruene Sosse: *Henry V*

A priority for Creu Cymru is providing opportunities for our members to share information on programming and discuss topical sector issues through quarterly meetings of 3 artform consortia. Originally initiated as part of the strategic development surrounding the Arts Outside Cardiff scheme, the groups have grown into vital forums for the whole membership.

At the Dance Consortium, members share expertise in presenting increasingly ambitious productions to growing audiences. A new initiative to emerge from this group in 2007/08 is the Dance Buddy scheme, which forges relationships between Wales-based independent dance artists and Creu Cymru members; the scheme's ultimate aim is to advance the presentation of Welsh-made dance in Wales.

Among the work to have been stimulated by the Drama Consortium during 2008/09 is an ongoing piece of research on drama audiences, which is informing current work on programming and audience development.

The Music Consortium developed during this year from its original incarnation as a group dedicated to world and roots music. The group now deals with music of all genres, and holds occasional extra meetings to discuss special topics such as opera/music theatre and Blues.

Blaenoriaeth i Creu Cymru yw darparu cyfleoedd i'n haelodau i rannu gwybodaeth am raglennu a thrafod materion llosg yn y sector trwy gyfarfodydd chwarterol rhwng 3 chonsortiwm i'r celfyddydau. Wedi'u sefydlu'n wreiddiol fel rhan o'r datblygu strategol sydd ynghlwm wrth gynllun y Celfyddydau y Tu Allan i Gaerdydd, mae'r grwpiau wedi tyfu'n fforymau hanfodol i'r holl aelodaeth.

Yn y Consortiwm Dawns, mae aelodau'n rhannu arbenigedd wrth gyflwyno cynyrchiadau sy'n gynyddol uchelgeisiol i gynulleidfaoedd sy'n tyfu. Menter newydd sydd wedi dod i'r fei o'r grŵp hwn yn 2007/08 yw cynllun y Byti Dawns, sy'n meithrin cysylltiadau rhwng artistiaid dawns annibynnol o Gymru ac aelodau Creu Cymru; nod y cynllun yn y pen draw yw hybu cyflwyno yng Nghymru ddawns sydd wedi'i chreu yng Nghymru.

Ymhlith y gwaith sydd wedi'i ysgogi gan y Consortiwm Drama yn ystod 2008/09 yw darn ymchwil cyfredol i gynulleidfaoedd drama, sy'n dylanwadu ar waith sy'n digwydd ar hyn o bryd o ran rhaglennu a datblygu cynulleidfaoedd.

Mae'r Consortiwm Cerddoriaeth wedi datblygu yn ystod y flwyddyn o'i ffurf wreiddiol fel grŵp arbennig ar gyfer cerddoriaeth y byd a gwreiddiau. Erbyn hyn, mae'r grŵp yn ymdrin â cherddoriaeth o bob genre gan ddal cyfarfodydd ychwanegol yn achlysurol i drafod testunau arbennig megis opera/theatr gerdd a'r Felan.


Diversions



# go and see
# ewch i weld


Superamas

Another priority for Creu Cymru is to support members in their programming, marketing and professional development. The Go and See scheme offers staff from member organisations the chance to visit performances and festivals. Go and See also forms an essential part of the Inventive Promoter and 21st-Century Promoter schemes (see pages 10 & 11).

During the year, individual visits to performances were made, and a number of group visits took place.

Creu Cymru rented 2 flats for the duration of the Edinburgh Fringe Festival in August 2007, providing the opportunity for all Creu Cymru staff and 21 representatives from 13 member organisations to attend a wide range of performances.

Among other national and international festival trips was a visit to 4+4 Days in Motion, a Prague-based event renowned for site-specific drama and physical theatre: representatives from 6 member organisations, along with a member of Creu Cymru staff, attended the festival.

Blaenoriaeth arall i Creu Cymru yw cynorthwyo aelodau wrth raglennu, marchnata ac wrth ddatblygu'n broffesiynol. Mae'r cynllun Ewch i Weld yn cynnig i staff aelod-sefydliadau y cyfle i ymweld â pherfformiadau a gwyliau. Mae Ewch i Weld hefyd yn ffurfio rhan hanfodol o'r cynlluniau Hyrwyddwr Creadigol a Hyrwyddwr yr 21ain Ganrif (gweler tudalennau 10 a 11).

Yn ystod y flwyddyn, cafwyd ymweliadau â pherfformiadau unigol a bu nifer o ymweliadau grŵp.

Bu Creu Cymru yn rhentu 2 fflat yn ystod Gŵyl Ymylon Caeredin ym mis Awst 2007, gan ddarparu'r cyfle i holl staff Creu Cymru a 21 o gynrychiolwyr o 13 o aelod-sefydliadau fynychu amrywiaeth eang o berfformiadau.

Ymhlith teithiau cenedlaethol a rhyngwladol eraill i wyliau roedd ymweliad â 4+4 Days In Motion, digwyddiad a gynhelir ym Mhrâg sy'n enwog am ei ddrama a theatr gorfforol ar gyfer safleoedd penodedig: bu cynrychiolwyr o 6 aelod-sefydliad ynghyd ag aelodau o staff Creu Cymru'n mynychu'r ŵyl.



**21 representatives from 13 members to the Edinburgh Fringe Festival**

**21 o gynrychiolwyr o 13 o aelod-sefydliadau yng Ngŵyl Ymylon Caeredin**

**10 representatives from 9 members to 3 other national and international festivals**

**10 o gynrychiolwyr o 9 o sefydliadau i 3 o wyliau cenedlaethol a rhyngwladol eraill**

**18 individuals from 10 members attended 12 performances in the UK and Europe**

**18 o unigolion o 10 aelod-sefydliad yn mynychu 12 perfformiad yn y DU ac Ewrop**

Galili Dance (Daan Brand)

# inventive promoter
# hyrwyddwr creadigol

### *funded by the Paul Hamlyn Foundation*

The Paul Hamlyn Foundation supported the pilot Inventive Promoter scheme with an £80,000 grant in 2006. A new award of £70,000 in 2008 was made in recognition of the success of this pilot, enabling it to run until summer 2010. The project aims to offer a group of 11 theatres and arts centres facing similar challenges the opportunity to promote higher quality, more diverse work.

Central to the project is creative collaboration between partners – joint planning, information sharing and professional development, with an emphasis on marketing and audience building. One of the major innovations lies in the creation of a Marketing Mentor for the scheme – an experienced consultant who works with each member of marketing staff to create an individually tailored marketing programme that also fits into a strategy for the whole group. Research and development is another cornerstone of the initiative, which includes a Go and See scheme: staff from participating theatres are funded to visit performances, including an annual group visit to the Edinburgh Fringe Festival.

Participating theatres and arts centres:

Beaufort Theatre, Ebbw Vale
Blackwood Miners' Institute
Borough Theatre, Abergavenny
The Coliseum, Aberdare
Muni Arts Centre, Pontypridd
Park & Dare Theatre, Treorchy
Pontardawe Arts Centre
The Grand Pavilion, Porthcawl
Theatr Harlech
The Welfare, Ystradgynlais
Wyeside Arts Centre, Builth Wells

Tours subsidised by the scheme during this period:

**25 performances of 6 productions:**

Theater Gruene Sosse (Germany): *Henry V* (Oct 2007)

Brighton Theatre Events: *Meeting Joe Strummer* (Dec 2007)

Red Shift: *Much Ado About Nothing* (Oct/Nov 2007)

A 'menu' of children's theatre (spring 2008):

- Det Lille Turneteater (Denmark): *Hamlet*
- Théâtre Maât (Belgium): *The Angel's Leap*
- Howard Read: *Little Howard & the Magic Pencil of Life & Death*

Brighton Theatre Events: *Meeting Joe Strummer*



Theater Gruene Sosse: *Henry V*

### *a ariennir gan Sefydliad Paul Hamlyn*

Cefnogwyd cynllun peilot yr Hyrwyddwr Creadigol gan Sefydliad Paul Hamlyn gyda grant £80,000 yn 2006. Mae £70,000 newydd ei ddyfarnu yn 2008 i gydnabod llwyddiant y peilot, gan ei alluogi i redeg tan haf 2010. Nod y prosiect yw cynnig y cyfle i grŵp o 11 o theatrau a chanolfannau celfyddydau sy'n wynebu heriau tebyg, i hyrwyddo gwaith sy'n well ei ansawdd ac yn fwy amrywiol.

Yn ganolog i'r prosiect mae cydweithredu creadigol rhwng partneriaid – cydgynllunio, rhannu gwybodaeth a datblygu proffesiynol gyda phwyslais ar farchnata a meithrin cynulleidfaoedd. Un o'r prif agweddau arloesol yw creu Mentor Marchnata i'r cynllun - ymgynghorydd profiadol sy'n gweithio gyda phob aelod o'r staff marchnata i greu rhaglen farchnata annibynnol, bwrpasol sydd hefyd yn cymryd ei lle mewn strategaeth i'r grŵp cyfan. Conglfaen arall y fenter yw Ymchwil a Datblygu sy'n cynnwys cynllun Ewch i Weld: mae staff o'r mentrau sy'n cymryd rhan yn cael eu hariannu i ymweld â pherfformiadau, gan gynnwys ymweliadau grŵp blynyddol â Gŵyl Ymylon Caeredin.

Theatrau a chanolfannau celfyddydau sydd cyfranogi:

Canolfan y Celfyddydau Pontardawe
Canolfan y Celfyddydau Muni, Pontypridd
Canolfan y Celfyddydau Wyeside, Llanfair ym Muallt
Coliseum, Aberdâr
Pafiliwn y Grand, Porthcawl
Parc a Dare, Treorci
Sefydliad y Glowyr, Y Coed Duon
Theatr Beaufort, Glyn Ebwy
Theatr y Bwrdeistref, Y Fenni
Theatr Harlech
Y Neuadd Les, Ystradgynlais

Teithiau a gynorthwywyd gan y cynllun yn ystod y cyfnod hwn:

**25 perfformiad o 6 chynhyrchiad:**

Theater Gruene Sosse (Yr Almaen): *Henry V* (Hyd 2007)

Brighton Theatre Events: *Meeting Joe Strummer* (Rhag 2007)

Red Shift: *Much Ado About Nothing* (Hyd/Tach 2007)

'Dewislen' theatr i blant (gwanwyn 2008):

- Det Lille Turneteater (Denmarc): *Hamlet*
- Théâtre Maât (Gwlad Belg): *Naid yr Angel*
- Howard Read: *Little Howard & the Magic Pencil of Life & Death*



Théâtre Maât: *The Angel's Leap*



# 21st-century promoter
# hyrwyddwr yr 21ain ganrif

### *funded by the Esmée Fairbairn Foundation*

In 2007 the Esmée Fairbairn Foundation awarded Creu Cymru a grant of £165,000 for the 21st-Century Promoter, a project to support the development of split- and full-week drama touring to 6 mid-scale theatres until 2010. This scheme develops work already started through the Esmée Fairbairn-funded Creative Promoter, which ran from 2004-07.

The 21st-Century Promoter scheme offers participants extensive Go and See opportunities for researching potential companies and productions, and for professional development. Support for programming consists of 3 years of an annual 'core' tour, a collaborative co-production and a tour of more unusual work. Marketing is an important strand of the scheme, with staff involved in performance visits to inform their marketing campaigns.

This first phase of the project has focussed on research and development, with the Go and See scheme to explore touring potential and contacts being forged with partner companies.

Aberystwyth Arts Centre
Taliesin Arts Centre, Swansea
Theatr Brycheiniog, Brecon
Theatr Gwynedd, Bangor
Theatr Mwldan, Cardigan
The Riverfront, Newport

### *a ariennir gan Sefydliad Esmée Fairbairn*

Yn 2007, dyfarnwyd grant gan Sefydliad Esmée Fairbairn i Creu Cymru o £165,000 ar gyfer prosiect Hyrwyddwr yr 21ain Ganrif, prosiect i gefnogi datblygu drama deithiol dros wythnos hollt neu wythnos lawn i 6 theatr ganolig eu maint tan 2010. Mae'r cynllun hwn yn datblygu gwaith sydd eisoes wedi cychwyn trwy'r Hyrwyddwr Creadigol a ariannwyd gan Esmée Fairbairn ac a redodd rhwng 2004 a 2007.

Mae cynllun Hyrwyddwr yr 21ain Ganrif yn cynnig cyfleoedd Ewch i Weld helaeth i'r rhai sy'n cymryd rhan er mwyn ymchwilio i gwmnïau a chynyrchiadau posibl, ac at ddatblygu proffesiynol. Mae cefnogaeth i raglennu yn cynnwys 3 blynedd o daith greiddiol flynyddol, cydgynhyrchiad cydweithredol a thaith sy'n cynnwys gwaith mwy anarferol. Mae marchnata'n faes pwysig yn y cynllun gyda staff yn ymweud ag ymweliadau perfformio er gwybodaeth i'w hymgyrchoedd marchnata.

Mae cyfnod cyntaf y prosiect wedi canolbwyntio ar ymchwil a datblygu gyda'r cynllun Ewch i Weld er mwyn archwilio potensial teithio a meithrin cysylltiadau cwmnïau partner.

Canolfan y Celfyddydau Aberystwyth
Canolfan y Celfyddydau Taliesin, Abertawe
Glan yr Afon, Casnewydd
Theatr Brycheiniog, Aberhonddu
Theatr Gwynedd, Bangor
Theatr Mwldan, Aberteifi



The Riverfront / Glan-yr-afon



Taliesin Arts Centre / Canolfan y Celfyddydau Taliesin



Aberystwyth Arts Centre / Canolfan y Celfyddydau Aberystwyth

# valleys roots

An ongoing marketing scheme administered by Creu Cymru to develop audiences for roots music. Participants are 8 member organisations in the South Wales Valleys.

Cynllun marchnata cyfredol a weinyddir gan Creu Cymru i ddatblygu cynulleidfaoedd ar gyfer cerddoriaeth gwreiddiau. Y cyfranogwyr yw aelod-sefydliadau yng nghymoedd de Cymru.

**public membership 1200**
**110% increase over 2 years**
**marketing over 60 events each year**

**aelodaeth y cyhoedd 1200**
**cynnydd o 110% dros 2 flynedd**
**yn marchnata dros 60 o ddigwyddiadau bob blwyddyn**



Seth Horan

# advocacy
# eiriolaeth

Creu Cymru membership played a significant role in ACW's consultations regarding the development of its artform strategies.

Autumn 2007: annual meeting between the Director and representatives from the Board of Creu Cymru with the Chairman and Chief Executive of the Arts Council of Wales.

Spring 2008: representations made to ACW in respect of funding decisions directly affecting members of Creu Cymru.

Bu aelodaeth Creu Cymru'n chwarae rhan sylweddol wrth i CCC ymgynghori ynglŷn â datblygu'i strategaethau i'r celfyddydau.

Hydref 2007: cyfarfod blynyddol rhwng Cyfarwyddwr a chynrychiolwyr o Fwrdd Creu Cymru gyda Chadeirydd a Phrif Weithredwr Cyngor Celfyddydau Cymru.

Gwanwyn 2008: gwnaethpwyd sylwadau i CCC ynglŷn â phenderfyniadau ariannu sy'n effeithio'n uniongyrchol ar aelodau Creu Cymru.



Puppet State Theatre: The Man Who Planted Trees



# finance
# cyllid



These figures represent an increase in the annual turnover of Creu Cymru of over £10,000 to just over £300,000. This is a 5% rise from 2006/07.

Creu Cymru has been successful in continuing to broaden its funding base, increasing turnover for the third year running and decreasing its reliance on ACW.

Mae'r ffigyrau hyn yn gynnydd o £10,000 yn nhrosiant blynyddol Creu Cymru i ychydig dros £300,000. Cynnydd o 5% yw hwn, o'i gymharu â 2006/07.

Bu Creu Cymru'n llwyddiannus wrth barhau i ehangu'i sylfaen cyllido gan gynyddu'i drosiant am y drydedd flwyddyn o'r bron gan leihau'i ddibyniaeth ar CCC.

Additional project support:

Esmée Fairbairn Foundation: £165,000 over 3 years for a second phase of the 21st-Century Promoter scheme.

Paul Hamlyn Foundation: £70,000 over two years for a continuation of the Inventive Promoter scheme.

ACW: project grant of £18,000 for the co-production of a tour by Stella Rambisai Chiweshe and the Heart of the Earthquake Band during October 2008.

ACW project grant of £4,500 for members research

Cefnogaeth prosiect ychwanegol:

Sefydliad Esmée Fairbairn: £165,000 dros 3 blynedd ar gyfer ail gyfnod o gynllun Hyrwyddwr yr 21ain Ganrif.

Sefydliad Paul Hamlyn: £70,000 dros ddwy flynedd i barhau'r cynllun Hyrwyddwr Creadigol.

Grant prosiect CCC o £18,000 ar gyfer cydgynhyrchu taith gan Stella Rambisai Chiweshe a'r Heart of the Earthquake Band yn ystod mis Hydref 2008.

Grant prosiect CCC o £4,500 ar gyfer ymchwil aelodau







Activity includes project expenditure and associated staffing support.

Mae gweithgarwch yn cynnwys gwariant ar brosiectau a chefnogaeth staff cysylltiedig.

South Hill Park Arts Centre: *Macbeth – Kill Bill Shakespeare*

# board
# bwrdd







| | |
|---|---|
| Alan Hewson | (Joint Chair) - Director, Aberystwyth Arts Centre<br>(Cyd-gadeirydd) - Cyfarwyddwr, Canolfan y Celfyddydau Aberystwyth |
| Dafydd Thomas | (Joint Chair) - Director, Theatr Gwynedd<br>(Cyd-gadeirydd) - Cyfarwyddwr, Theatr Gwynedd |
| David Ambrose | Director, Beyond the Border International Festival of Storytelling (resigned September 2007)<br>Cyfarwyddwr, Gŵyl Tu Hwnt i'r Ffin (wedi ymddiswyddo Medi 2007) |
| Nick Banwell | Manager, Borough Theatre<br>Rheolwr, Theatr y Bwrdeistref, Y Fenni |
| Sara Clutton | Director, Theatr Hafren (resigned December 2007)<br>Cyfarwyddwr, Theatr Hafren (wedi ymddiswyddo Rhagfyr 2007) |
| Geoff Cripps | Director, RCT Theatres<br>Cyfarwyddwr, Gwasanaeth Diwylliannol Rhondda Cynon Taf |
| Sybil Crouch | Director, Taliesin Arts Centre (resigned February 2008)<br>Cyfarwyddwr, Canolfan y Celfyddydau Taliesin (wedi ymddiswyddo Chwefror 2008) |
| Dilwyn Davies | Director, Theatr Mwldan<br>Cyfarwyddwr, Theatr Mwldan |
| Angie Dickinson | Manager, Pontardawe Arts Centre (joined Board in December 2007)<br>Rheolwr, Canolfan y Celfyddydau Pontardawe (ymaelododd ym mis Rhagfyr 2007) |
| Peter Harding | Wales Assembly Government Education Department (joined Board in December 2007)<br>Adran Addysg Llywodraeth Cynulliad Cymru (ymaelododd ym mis Rhagfyr 2007) |
| Elen ap Robert | Artistic Director, Galeri (joined Board in December 2007)<br>Cyfarwyddwr Artistig, Galeri (ymaelododd ym mis Rhagfyr 2007) |
| Guy Roderick | Director, Wyeside Arts Centre<br>Cyfarwyddwr, Canolfan y Celfyddydau Wyeside |
| Nic Young | Theatre and Arts Director, The Riverfront<br>Cyfarwyddwr Theatr a Chelfyddydau, Glan-yr-afon |

# regional & national partners
# partneriaid rhanbarthol a chenedlaethol

| | |
|---|---|
| Mid Wales Circuit | Y Cylch Canolbarth Cymru |
| Audiences Wales | Cynulleidfaoedd Cymru |
| Wales Arts International | Celfyddydau Rhyngwladol Cymru |
| Welsh Independent Dance | Welsh Independent Dance |
| Wales Association for the Performing Arts (WAPA) | Cymdeithas Celfyddydau Perfformio Cymru (WAPA) |
| North Wales Presenters Group | Grŵp Cynhyrchwyr Gogledd Cymru |
| National Theatre of Scotland | National Theatre of Scotland |
| Federation of Scottish Theatres | Federation of Scottish Theatres |






# staff
# staff

| | |
|---|---|
| Director Richard Hogger<br>Cyfarwyddwr | richard@creucymru.co.uk |
| Communications & Marketing Manager Iain Kempton<br>Rheolwr Cyfarthrebu a Marchnata | iain@creucymru.co.uk |
| Development Manager Deborah Keyser<br>Rheolwr Datblygu | deborah@creucymru.co.uk |
| Touring Manager Berith Lochery<br>Rheolwr Deithio | berith@creucymru.co.uk |
| Administrator Yvonne O'Donovan<br>Gweinyddwr | yvonne@creucymru.co.uk |
| Acting Touring Manager (maternity cover) Julie Turner<br>Rheolwr Deithio dros dro | |


Theatr Brycheiniog / Theatr Brycheiniog


Wales Millennium Centre / Canolfan Mileniwm Cymru


St Donats Arts Centre / Canolfan y Celfyddydau Sain Dunwyd

# contact information
# gwybodaeth gyswllt

General enquiries
Ymholiadau cyffredinol — post@creucymru.co.uk

Telephone
Ffôn — 01970 639444

Website
Gwefan — www.creucymru.co.uk

Creu Cymru, Unit 8H, Science Park,
Aberystwyth, Ceredigion, SY23 3AH

Creu Cymru, Uned 8H, Parc Gwyddoniaeth,
Aberystwyth, Ceredigion, SY23 3AH

design / dylunio: www.fbagroup.co.uk    cover / clawr: Cas Public: *Blue Beard*

